CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1512 (Cy.148)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAD

# Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn darparu swm yr iawndal sydd yn daladwy pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn peri cigydda anifail buchol o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai swm yr iawndal sydd yn daladwy ar gigydda anifail buchol yw y pris cyfartalog a dalwyd ym Mhrydain Fawr ar gyfer oed a chategori yr anifail yn y chwe mis blaenorol yn achos anifail pedigri, ac ar gyfer unrhyw anifail buchol arall yn y mis blaenorol.

Yr iawndal ar gyfer Byffalo a Buail yw pris y farchnad.

Mae arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi ac wedi ei roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau gan yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1512 (W.148)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, provide for rates of compensation to be paid when the National Assembly causes a bovine animal to be slaughtered under Schedule 3 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006.

Under these Regulations, the amount of compensation payable on the slaughter of a bovine animal is the average price paid in Great Britain for that age and category of animal in the previous six months in the case of a pedigree animal, and for any other bovine animal in the previous month.

The compensation for Buffalo and Bison is the market price.

A regulatory appraisal has been prepared and placed in the library of the National Assembly. Copies can be obtained from the Department for Environment Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1512 (Cy.148)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *13 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mehefin 2006* |

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei ddynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau ym meysydd milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Yr enw ar y Rheoliadau hyn fydd Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i anifeiliaid a gedwir ar gyfer pwrpasau ymchwil mewn mangreoedd a gymeradwyir ar gyfer y pwrpas hynny o dan reoliadau Eneffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006(**3**).

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "anifail buchol" ("*bovine animal*") yw gwartheg yn cynnwys buail a byfflo (gan gynnwys byfflo dŵr);

ystyr "BSE" ("*BSE*") yw enseffalopathi sbyngffurf buchol;

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2003/1246.

(**3**) O.S. 2006/1226.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1512 (W.148)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 June 2006* |
| *Coming into force* | *14 June 2006* |

The National Assembly makes the following Regulations under the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**).

The National Assembly has been designated(**2**)for the purposes of that section in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health.

**Title, application and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Bovine Spongiform Encephalopathy (BSE) Compensation (Wales) Regulations 2006, they apply to Wales and come into force on 14 June 2006. These Regulations do not apply in relation to animals kept for the purposes of research in premises approved for that purpose under the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006(**3**).

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations-

"bovine animal" ("*anifail buchol*") includes bison and buffalo (including water buffalo);

"BSE" ("*BSE*") means bovine spongiform encephalopathy;

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2003/1246.

(**3**) S.I. 2006/1226.

mae gan "pasbort gwartheg" ("*cattle passport*") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(**1**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

**Iawndal am anifeiliaid buchol sy'n cael eu cigydda oherwydd TSE**

**3**. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu iawndal-

(a) pan fo anifail yn cael ei ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006;

(b) pan fo anifail i'w ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, a bod yr anifail wedi ei brisio ar gyfer pwrpasau iawndal, ond fod yr anifail yn marw (neu yn cael ei ladd am resymau eraill) wedi prisio; neu

(c) lle bo anifail yn ddarostyngedig i gyfyngiad symud o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 a bod yn rhaid ei ladd fel mater o frys, a bod milfeddyg wedi datgan yn ysgrifenedig y byddai'r anifail fel arall wedi bod yn addas i'w fwyta gan bobl yn unol â Phennod VI o Adran I o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**2**), ac os felly yr iawndal yw gwerth y corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen).

**Swm yr iawndal sy'n daladwy**

**4**.-(1) Yr iawndal yw'r pris cyfartalog a delir ym Mhrydain fawr am anifail o'r oed a'r categori hwnnw o anifail-

(a) yn y chwe mis blaenorol yn achos anifail pedigri; ac

(b) yn achos unrhyw anifail buchol eraill, yn y mis blaenorol

(2) Anifail pedigri yw anifail sydd wedi cael tystysgrif pedigri gan sefydliad neu gymdeithas bridwyr sy'n cyflawni amodau Penderfyniad y Cyngor 84/247/EEC sy'n gosod y meini prawf ar gyfer cydnabod sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n cadw llyfrau buches ar gyfer anifeiliaid bridio pur o'r rhywogaeth buchol(**3**).

(**1**) O.S. 1998/871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2969 ac O.S. 1999/1339.

(**2**) OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22.

(**3**) OJ Rhif L125, 12.05.1984, t.58.

"cattle passport" ("*pasbort gwartheg*") has the same meaning as in the Cattle Identification Regulations 1998(**1**);

"National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

**Compensation for bovine animals slaughtered for TSE**

**3**. The National Assembly must pay compensation-

(a) when an animal is killed under Schedule 3 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006;

(b) where an animal is to be killed under Schedule 3 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006, and has been valued for the purposes of compensation, but dies (or is killed for other reasons) after valuation; or

(c) where an animal is subject to a movement restriction under Schedule 3 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006 and has to be killed as an emergency and a veterinary surgeon has declared in writing that the animal would otherwise have been fit for human consumption in accordance with Chapter VI of Annex III to Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(**2**) in which case compensation is the value of the body (including the blood and hide).

**Amount of compensation payable**

**4**.-(1) The compensation payable is the average price paid in Great Britain for that age and category of animal-

(a) for a pedigree animal, in the previous six months; and

(b) for any other bovine animal in the previous month.

(2) A pedigree animal is one for which a pedigree certificate has been issued by a breeders' organisation or association that fulfils the conditions of Council Decision 84/247/EC laying down the criteria for the recognition of breeders' organisations and associations which maintain or establish herd-books for pure-bred breeding animals of the bovine species(**3**).

(**1**) S.I. 1998/871, as amended by S.I. 1998/2969 and S.I. 1999/1339.

(**2**) OJ No. L226, 25.6.2004, p.22.

(**3**) OJ No L125, 12.05.1984, p.58.

(3) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gategoreiddio anifeiliaid fel a ganlyn, ac at bwrpas penderfynu ynglŷn â pha gategori i roi'r anifail, oed yr anifail yw'r oed, fel y dangosir gan ei basport gwartheg, ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o'r bwriad i'w ladd.

(3) The National Assembly must categorise animals as follows, and for the purposes of determining which category the animal falls into, the age of the animal is the age, as shown by its cattle passport, at the date on which the notice of intention to kill was served.

**Categorïau**

| *Gwryw* | *Menyw* |
|---|---|
| **Sector Eidion-anifail sydd ddim yn bedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 3 mis | Hyd at ac yn cynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at ac yn cynnnwys 9 mis | Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 9 mis |
| Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis- | Dros 20 mis- |
| Teirw bridio<br>Arall | Wedi bwrw llo<br>Heb fwrw llo |
| **Sector Llaeth-anifail sydd ddim yn bedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 3 mis | Hyd at ac yn cynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis | Dros 20 mis- |
| | Wedi bwrw lloHeb fwrw llo |
| **Sector Eidion - anifail pedigri** | |
| 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis |
| Dros 24 mis | Dros 24 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw llo o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo 36 mis a drosodd |
| **Sector Llaeth-anifail pedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 2 fis | Hyd at ac yn cynnwys 2 fis |
| Dros 2 fis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 2 fis hyd at ac yn cynnwys 10 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis | Dros 10 mis hyd at ac yn cynnwys 18 mis |
| Dros 24 mis | Dros 18 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw lllo o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo 36 mis a throsodd |

**Categories**

| *Male* | *Female* |
|---|---|
| **Beef Sector - non-pedigree animal** | |
| Up to and including 3 months | Up to and including 3 months |
| Over 3 months up to and including 6 months | Over 3 months up to and including 6 months |
| Over 6 months up to and including 9 months | Over 6 months up to and including 9 months |
| Over 9 months up to and including 12 months | Over 9 months up to and including 12 months |
| Over 12 months up to and including16 months | Over 12 months up to and including 16 months |
| Over 16 months up to and including 20 months | Over 16 months up to and including 20 months |
| Over 20 months- | Over 20 months- |
| Breeding bulls<br>Other | Calved<br>Not calved |
| **Dairy Sector - non-pedigree animal** | |
| Up to and including 3 months | Up to and including 3 months |
| Over 3 months up to and including 6 months | Over 3 months up to and including 6 months |
| Over 6 months up to and including 12 months | Over 6 months up to and including 12 months |
| Over 12 months up to and including 16 months | Over 12 months up to and including 16 months |
| Over 16 months up to and including 20 months | Over 16 months up to and including20 months |
| Over 20 months | Over 20 months- |
| | CalvedNot calved |
| **Beef Sector - pedigree animal** | |
| 6 months up to and including 12 months | 6 months up to and including 12 months |
| Over 12 months up to and including 24 months | Over 12 months up to and including 24 months |
| Over 24 months | Over 24 months (not calved) |
| | Calved under 36 months |
| | Calved 36 months and over |
| **Dairy Sector - pedigree animal** | |
| Up to and including 2 months | Up to and including 2 months |
| Over 2 months up to and including 12 months | Over 2 months up to and including 10 months |
| Over 12 months up to and including 24 months | Over 10 months up to and including 18 months |
| Over 24 months | Over18 months (not calved) |
| | Calved under 36 months |
| | Calved 36 months and over |

**Eithriadau i'r swm o iawndal sydd yn daladwy**

**5**.-(1) Lle bo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn nad yw'r data i gyfrifo'r pris cyfartalog yn ddigonol, yna mae'n rhaid iddo dalu iawndal-

(a) am anifeiliaid yn y categori hwnnw, y pris cyfartalog a gyfrifwyd yn flaenorol yn fwyaf diweddar lle roedd digon o ddata i gyfrifo'r pris cyfartalog; neu

(b) pris y farchnad, am yr anifail unigol.

(2) Ar gyfer byfflo neu bison, yr iawndal yw pris y farchnad.

(3) Pris y farchnad yw'r pris y gellid yn rhesymol fod wedi ei gael am anifail unigol oddi wrth brynwr yn y farchnad agored adeg prisio pe na bai'n ofynnol lladd yr anifail o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, wedi ei gyfrifo o dan reoliad 15 o Reoliadau Enseffalopathïau Trosgwlyddadwy (Cymru) 2006, gyda'r ffioedd am enwebu'r prisiwr a ffioedd y prisiwr yn daladwy gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Dirymu**

**6**. Dirymir Rheoliadau 8, 9, 84, 93, Rhan III o Atodlen 1, rheoliad 17 o Ran IV o Atodlen 6A a rheoliadau 4 ac 8 o Atodlen 7, sydd yn ymwneud â thalu iawndal yn dilyn cigydda anifail buchol, o Reoliadau TSE (Cymru) 2002(**1**) pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

13 Mehefin 2006

**Exceptions to amount of compensation payable**

**5**.-(1) Where the National Assembly considers that the data to calculate the average price is inadequate, it may pay compensation at-

(a) for animals in that category, the most recent previously calculated average price for which there was sufficient data to calculate the average price; or

(b) for the individual animal, the market price.

(2) For buffalo or bison, compensation is the market price.

(3) The market price is the price that might reasonably have been obtained for the individual animal from a purchaser in the open market at the time of valuation if the animal was not required to be killed under Schedule 3 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) 2006 Regulations, calculated under regulation 15 of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) 2006 Regulations with the National Assembly paying any fee arising from nominating and employing a valuer.

**Revocations**

**6**. Regulations 8, 9, 84, 93, Part III of Schedule 1, regulation 17 of Part IV of Schedule 6A and regulations 4 and 8 of Schedule 7, which relate to the payment of compensation following the slaughter of bovine animals, of the TSE (Wales) Regulations 2002 are revoked(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**).

13 June 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 2002/1416

(**2**) 1998, p.38

(**1**) S.I. 2002/1416

(**2**) 1998, c.38

○

**£3.00**

W339/06/06 ON